Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
8/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/02/2019

# Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Atodiad C: Canfyddiadau'r cais am ddata gan ALlau

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-819-5

Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Atodiad C: Canfyddiadau’r cais am ddata gan ALlau

Hefin Thomas, Brett Duggan, Dr Alison Glover, Jennifer Lane (Ymchwil Arad)
Dr Carmel Conn, Dr Kathy Evans, Sharon Drew, Amanda Kelland (Prifysgol De Cymru)

Thomas, H yn al (2019) *Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Adroddiad rhif GSR 8/2019.*

Ar gael trwy droi at: https://gov.wales/statistics-and-research/research-establish-baseline-special-educational-needs-system/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:
Enw: Ymchwil Ysgolion
Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 0377
YmchwilYsgolion@llyw.cymru

**Atodiad C.  Dadansoddiad o'r ymatebion i geisiadau am ddata gan ALlau**

Dosbarthwyd profforma yn gofyn am ddata i'r holl ALlau ym mis Medi 2017 (Gweler Atodiad 1).  Cafwyd ymatebion gan y 22 o adrannau addysg ALlau rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018.  Amlinellir dadansoddiad o'r data hwn isod.

**Defnyddio CDUau**

Nododd wyth o blith y 22 ALl eu bod yn defnyddio CDUau ar hyn o bryd.  O blith yr wyth hyn:

- Nododd pedwar ALl y defnyddir CDUau gyda dysgwyr sy'n gymwys i gael datganiadau AAA ar hyn o bryd;
- Nododd tri y defnyddir CDUau gyda dysgwyr sy'n cael gweithredu gan yr ysgol/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar;
- Nododd pump ALl y defnyddir CDUau gyda dysgwyr sy'n cael gweithredu gan yr ysgol a mwy/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy.

Ymhlith yr wyth ALl a ddynododd eu bod yn defnyddio CDUau, nododd dau eu bod yn y camau cynnar iawn o ddatblygu neu beilota CDUau a nododd un eu bod yn eu defnyddio ond nad oedd ganddynt unrhyw ddata ynghylch nifer y CDUau.  Roedd y pump ALl a oedd yn weddill yn gallu darparu data a oedd yn dangos bod 578 CDU yn eu lle ar draws yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd (116 ym mhob un ar gyfartaledd).

Yn ogystal, gofynnwyd i ALlau pa ddata monitro sy'n cael ei ddal mewn perthynas â CDUau. Roedd wyth ALl wedi ateb y cwestiwn hwn, ac o blith y rhain:

- Disgrifiodd dau ALl eu bod newydd ddechrau peilota CDUau ond ni ddarparwyd gwybodaeth ganddynt ynghylch monitro;
- Nododd un nad oes unrhyw ddata monitro yn cael ei ddal ac eithrio'r CDU ei hun. Nododd yr ALl hwn y cynhelir cyfarfodydd adolygu CDU tymhorol a blynyddol;
- Disgrifiodd dau ALl fforymau CDU lleol yr oeddent wedi'u sefydlu i adolygu CDUau;

- Nododd tri ALI bod ysgolion ac ALlau yn monitro CDUau, trwy gyfrwng adolygiadau tymhorol, chwemisol neu flynyddol.

Ymhlith yr ALlau a nododd nad ydynt yn defnyddio CDUau, dywedodd rhai eu bod yn bwriadu dechrau defnyddio CDUau. Nododd un ALI nad ydynt yn defnyddio CDUau, ond adroddodd bod rhai ysgolion yn eu hardal yn dechrau eu peilota. Yn ogystal, nododd rhai ALlau eu bod yn defnyddio neu'n annog pobl i ddefnyddio proffiliau un tudalen gyda dysgwyr.

### Asesiadau statudol

Holwyd ALlau am nifer y ceisiadau am asesiadau statudol a wnaethpwyd yn eu hardal dros y dair blynedd ddiwethaf. Roedd yr ymatebion yn dangos cynnydd yng nghyfanswm y ceisiadau am asesiadau statudol yn ystod pob blwyddyn, o 2342 yn 2014/15 i 2689 yn 2016/17.

**Tabl 98. Ymatebion ALlau i'r cwestiwn 'Faint o geisiadau am asesiad statudol a gafodd eich awdurdod lleol yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf?'**

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y ceisiadau** | 2342 | 2553 | 2689 |
| **Nifer gyfartalog y ceisiadau fesul ALI** | 106 | 116 | 122 |

N=22

Ffynhonnell: Cais am ddata gan ALlau

Gwelwyd nifer yr asesiadau statudol a gynhaliwyd ar draws Cymru yn codi hefyd rhwng 2014/15 a 2016/17. Fodd bynnag, gwelwyd nifer yr asesiadau yn gostwng rhwng 2015/16 a 2016/17. Ymhellach, roedd canran y ceisiadau a arweiniodd at asesiad statudol ychydig yn is yn 2016/17 nag yr oedd yn 2014/15.

**Tabl 99. Ymatebion ALlau i'r cwestiwn 'Faint o asesiadau statudol a gynhaliwyd yn eich awdurdod lleol yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf?'**

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr asesiadau statudol** | 1511 | 1759 | 1670 |
| **Nifer gyfartalog yr asesiadau statudol fesul ALI** | 69 | 80 | 76 |
| **Canran y ceisiadau a** | 65% | 69% | 62% |

| **gyrhaeddodd asesiad** | | | |
|---|---|---|---|

N=22

Ffynhonnell: Cais am ddata gan ALI

Gofynnwyd i ALIau roi amcangyfrif o amser y staff a gaiff ei dreulio yn cyflawni prosesau amrywiol sy'n ymwneud ag asesiadau ac adolygiadau statudol. Roedd bron pob ALI wedi cynnig ymatebion i'r cwestiynau hyn, er bod rhai wedi amlinellu'r heriau sydd ynghlwm â darparu'r amcangyfrifon hyn. Amlygir yr anawsterau wrth ddarparu amcangyfrifon o'r fath gan nifer gymharol fawr amrediad yr ymatebion i bob cwestiwn.

**Tabl 100. Ymatebion ALIau i'r cwestiwn 'Nodwch eich amcangyfrif gorau o nifer gyfartalog yr oriau o amser staff yr awdurdod lleol a dreulir ar bob asesiad statudol.'**

| | **Nifer yr ymatebion*** | **Nifer gyfartalog yr oriau** | **Amrediad** |
|---|---|---|---|
| Nodwch eich amcangyfrif gorau o nifer gyfartalog yr oriau o amser staff yr awdurdod lleol a dreulir ar bob asesiad statudol. | 19 | 21h 58m | 3-37h |
| Faint o amser y mae staff yn ei wario wrth baratoi datganiad unwaith y mae penderfyniad wedi ei wneud bod angen datganiad ar ddysgwr ar ôl cael asesiad statudol? Nifer gyfartalog yr oriau sy'n cael eu gwario yn paratoi datganiadau | 20 | 6h 35m | 2-22h |
| Nodwch eich amcangyfrif gorau o nifer gyfartalog yr oriau a dreulir gan staff ALI ar adolygiad blynyddol nodweddiadol o ddatganiad AAA? (Gall hyn gynnwys amser a dreuliwyd yn mynychu cyfarfodydd adolygu a gweinyddu) | 20 | 5h 42m | 1h 45m – 15h 45 |

* Rhoddwyd un ymateb gan ddau ALI

N=19/20/20

### Anghytundebau

Gofynnwyd i ALIau nodi faint o anghytundebau, apeliadau a thribiwnlysoedd yr oedd yr ALI wedi delio â nhw dros y 12 mis diwethaf. Roedd y cais am ddata yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

- Faint o anghytundebau sy'n ymwneud â phrosesau statudol (o asesiad statudol hyd at fater datganiad terfynol AAA) a gofnodwyd yn eich awdurdod lleol yn ystod y 12 mis diwethaf? Cofiwch gynnwys unrhyw apeliadau a gofnodwyd yn y ffigwr hwn.
    - Nifer yr anghytundebau a oedd yn ymwneud â phrosesau statudol
- Faint o anghytundebau sy'n ymwneud ag agweddau eraill o system ADY/AAA a gofnodwyd yn eich ALI yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Nifer yr anghytundebau a oedd yn ymwneud ag agweddau eraill ar brosesau ADY/AAA
- Faint o apeliadau sy’n ymwneud ag ADY/AAA a gofnodwyd yn eich ALl yn ystod y 12 mis diwethaf?
    - Nifer yr apeliadau a oedd yn ymwneud ag ADY/AAA

Er bod rhan fwyaf yr ALlau wedi ceisio darparu data mewn perthynas â phob cwestiwn, nododd sawl ALl nad ydynt yn dal y data yn y ffurf y gofynnwyd amdani. Nododd rhai ALlau ei bod yn anodd darparu'r data mewn ffordd gadarn. Mae'r amrywiadau o ran y data sy'n cael ei ddal a'r sylwadau gan ALlau yn golygu y dylid ystyried bod y data yn fesur dangosol yn hytrach nag yn fesur manwl o'r sefyllfa bresennol.

**Tabl 101. Ymatebion ALlau i gwestiynau ynghylch nifer yr anghytundebau, yr apeliadau a'r tribiwnlysoedd***

| | Nifer a atebodd y cwestiwn | Cyfanswm | Nifer gyfartalog fesul ALl |
|---|---|---|---|
| Nifer yr anghytundebau a oedd yn ymwneud â phrosesau statudol | 19 | 436 | 24 |
| Nifer yr anghytundebau a oedd yn ymwneud ag agweddau eraill ar brosesau ADY/AAA | 15 | 221 | 15 |
| Nifer yr apeliadau a oedd yn ymwneud ag ADY/AAA | 19 | 123 | 6 |
| Nifer yr apeliadau a gyrhaeddodd y cam Tribiwnlys | 20 | 39 | 2 |

* Nododd sawl ALl nad ydynt yn cofnodi gwybodaeth ynghylch anghytundebau yn y ffurf y gofynnwyd amdani a dywedodd rhai nad ydynt yn cofnodi anghytundebau nes byddant yn cyrraedd y cam apêl.
N=19/15/19/20

Gofynnwyd i ALlau geisio nodi cyfanswm yr amser a gaiff ei dreulio yn delio ag anghytundebau ac apeliadau. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Nodwch eich amcangyfrif gorau o nifer yr oriau o amser staff yr ALl a dreulir wrth ymdrin ag anghytundebau sy’n ymwneud ag ADY/AAA yr wythnos?
    - Nifer yr oriau cyfartalog yr wythnos a dreulir yn delio ag anghytundebau sy'n sy'n ymwneud ag ADY/AAA

- Nodwch eich amcangyfrif gorau o nifer yr oriau o amser staff yr awdurdod lleol a dreulir wrth ymdrin ag apeliadau sy’n ymwneud ag ADY/AAA yr wythnos?
    - Nifer yr oriau cyfartalog yr wythnos a dreulir yn delio ag apeliadau sy'n ymwneud ag ADY/AAA

Nododd rhan fwyaf yr ALlau ei bod yn anodd nodi cyfanswm yr amser a gaiff ei dreulio ar anghytundebau. Nododd yr ALlau hyn y byddai swm y gwaith yn dibynnu ar natur yr anghytundeb neu'r apêl a'r gwaith sy'n ymwneud â chyfarfodydd, datrys anghydfodau, cael cyswllt gyda gwasanaethau cyfreithiol, a gwneud gwaith gweinyddol, megis ysgrifennu datganiad yr achos. Nododd rhai nad ydynt yn casglu neu'n dal y data hwn. Mae'r amrywiadau o ran y data a ddarparwyd a'r sylwadau a wnaethpwyd gan ALlau yn golygu y dylid trin y data fel data dangosol yn hytrach na mesur manwl o'r sefyllfa bresennol.

**Tabl 102. Ymatebion ALlau i gwestiynau am yr amser a dreulir yn delio ag anghytundebau, apeliadau a thribiwnlysoedd**

| | Nifer a atebodd y cwestiwn | Cyfanswm | Nifer gyfartalog fesul ALl | Amrediad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr oriau cyfartalog yr wythnos a dreulir yn delio ag anghytundebau sy'n sy'n ymwneud ag ADY/AAA | 14 | 471 | 34 | 2.5-112.5 awr |
| Nifer yr oriau cyfartalog yr wythnos a dreulir yn delio ag apeliadau sy'n ymwneud ag ADY/AAA | 12 | 281 | 26 | 0.5 awr – 148 awr |

N=12/14